

Rhif: WG42751



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

FFRAMWEITHIAU'R SGILIAU TRAWSGWRICWLAIDD

Camau ABC diwygiedig

Dyddiad cyhoeddi: 21 Mai 2021

Camau gweithredu: Ymatebion erbyn 16 Gorffennaf 2021

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

Fframweithiau'r Sgiliau Trawsgwricwlaidd

Trosolwg

Cyhoeddwyd fersiynau diwygiedig o fframweithiau'r sgiliau trawsgwricwlaidd, y [Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol](#) (FfLIRh) a'r [Fframwaith Cymhwysedd Digidol](#) (FfCD), fel canllawiau ategol, ochr yn ochr â Fframwaith Cwricwlwm i Gymru ar 28 Ionawr 2020.

Adeg eu cyhoeddi, nid oedd unrhyw newidiadau wedi'u gwneud i'r elfen o'r Fframweithiau sy'n cyfeirio at sgiliau Ar Drywydd Dysgu a Chamau ABC. Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i adolygu'r agwedd hon ar y Fframweithiau ar ôl cyhoeddi [Map Llwybrau diwygiedig Ar Drywydd Dysgu](#).

Mae'r cam adborth hwn yn gyfle ichi roi eich barn ar y Camau ABC diwygiedig o fewn y Fframweithiau.

Datblygwyd y Camau ABC diwygiedig drafft gan ymarferwyr o bob rhan o Gymru drwy broses ar y cyd. Mae'r cam adborth hwn yn rhan o'r broses hon. Mae'n rhoi cyfle i bob ymarferydd a rhanddeiliad arall gynnig mewnbwn a fydd yn helpu i ddatblygu Camau ABC ymhellach.

Daw'r cam adborth hwn i ben ar 16 Gorffennaf, ac ar ôl hynny bydd yr holl ymatebion yn cael eu hystyried a'u dadansoddi'n annibynnol yn ogystal â chan ymarferwyr yn y gweithgor. Yna caiff Camau ABC eu mireinio mewn ymateb i'r adborth a byddant yn rhan o ddiweddariad i Fframwaith Cwricwlwm i Gymru yn hydref 2021.

Sut i ymateb

Dylid anfon ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad/blwch e-bost isod i gyrraedd erbyn 16 Gorffennaf fan bellaf.

Gwybodaeth bellach a dogfennau perthnasol

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Mae canllawiau Cwricwlwm i Gymru ar gael yn <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru>

Mae fersiwn hawdd ei darllen ar gael yn <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cwricwlwm-newydd-yng-nghymru-hawdd-ei-ddeall/>

Mae canllawiau i blant, pobl ifanc a theuluoedd ar gael yn

<https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cwricwlwm-newydd-yng-nghymru-canllaw-ar-gyfer-plant-pobl-ifanc-a-theuluoedd/>

Gellir dod o hyd i ddogfennau'r ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/ymgyngoriadau

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:

Uned Gwireddu'r Cwricwlwm
Yr Is-adran Cwricwlwm ac Asesu
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: cwricwlwmigymru@llyw.cymru



@LIC_Addysg



Facebook/Addysg Cymru

Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd rheolydd unrhyw ddata personol rydych yn eu darparu fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw neu a fydd yn trefnu ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Lle bydd Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â gwaith dadansoddi pellach o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, yna mae'n bosibl y comisiynir trydydd parti achrededig i wneud y gwaith hwn (ee sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori). Ymgwymerir ag unrhyw waith o'r fath o dan contract yn unig. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn gywir, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch chyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio eich manylion cyn cyhoeddi eich ymateb.

Dylech fod yn ymwybodol hefyd o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, yna caiff yr adroddiadau hyn a gyhoeddir eu cadw am gyfnod amhenodol. Fel arall, ni chedwir unrhyw ddata sydd gan Lywodraeth Cymru amdanoch am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- i wrthwynebu prosesu data neu gyfyngu ar brosesu data (o dan amgylchiadau penodol)
- i ofyn i'ch data gael eu 'dileu' (o dan amgylchiadau penodol)
- i gludadwyedd data (o dan amgylchiadau penodol)
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac at ba ddiben, neu os hoffech arfer eich hawl o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:
Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Dyma'r manylion cyswllt ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer / Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113

Gwefan: <https://ico.org.uk/>

e-bost: Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Cyflwyniad

Cyhoeddwyd fersiynau diwygiedig o fframweithiau'r sgiliau trawsgwricwlaidd, y [Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol](#) (FfLIRh) a'r [Fframwaith Cymhwysedd Digidol](#) (FfCD), fel canllawiau ategol, ochr yn ochr â Fframwaith Cwricwlwm i Gymru ar 28 Ionawr 2020.

Adeg eu cyhoeddi, nid oedd unrhyw newidiadau wedi'u gwneud i'r elfen o'r Fframweithiau sy'n cyfeirio at sgiliau Ar Drywydd Dysgu a Chamau ABC. Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i adolygu'r agwedd hon ar y Fframweithiau ar ôl cyhoeddi [Map Llwybrau diwygiedig Ar Drywydd Dysgu](#).

Mae'r cam adborth hwn yn gyfle ichi roi eich barn ar y Camau ABC diwygiedig o fewn y Fframweithiau.

Datblygwyd y Camau ABC diwygiedig drafft gan ymarferwyr o bob rhan o Gymru drwy broses ar y cyd. Mae'r cam adborth hwn yn rhan o'r broses hon. Mae'n rhoi cyfle i bob ymarferydd a rhanddeiliad arall gynnig mewnbwn a fydd yn helpu i ddatblygu Camau ABC ymhellach.

Daw'r cam adborth hwn i ben ar 16 Gorffennaf, ac ar ôl hynny bydd yr holl ymatebion yn cael eu hystyried a'u dadansoddi'n annibynnol yn ogystal â chan ymarferwyr yn y gweithgor. Yna caiff Camau ABC eu mireinio mewn ymateb i'r adborth a byddant yn rhan o ddiweddariad i Fframwaith Cwricwlwm i Gymru yn hydref 2021.

Byddwn yn ddiolchgar am eich holl adborth, ond rydym yn croesawu'n benodol safbwyntiau ynghylch:


- p'un a yw'r datganiadau yn adlewyrchu cynnydd ar hyd continwmm
- p'un a yw'r datganiadau o fewn y camau yn gyson ac yn gywir
- p'un a oes unrhyw fylchau o ran cynnydd datblygiadol.

Y cefndir - Sgiliau trawsgwricwlaidd a'r Fframweithiau

Mae llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn [sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol](#) o fewn Fframwaith Cwricwlwm i Gymru. Nhw yw'r blociau adeiladu hanfodol sy'n sail i'r holl ddysgu ac sy'n galluogi dysgwyr i fanteisio ar ehangder y cwricwlwm.

Penderfynir ar sut y caiff llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol eu datblygu o fewn ac ar draws y cwricwlwm ar lefel leol i gyd-fynd â dulliau ysgolion unigol. Er mwyn cefnogi ysgolion ac ymarferwyr i ddarparu cyfleoedd i ddatblygu a chymhwyso'r sgiliau hyn, mae'r FfLIRh a'r FfCD (y Fframweithiau) yn parhau i fod ar gael fel canllawiau ategol anstatudol.

Mae'r Fframweithiau ar gyfer pob dysgwr ac fe'u cynlluniwyd i gynnwys set o sgiliau ar gyfer pob plentyn yng Nghymru. Datblygwyd y Fframweithiau gan gyfeirio at [Fap Llwybrau Ar Drywydd Dysgu](#), gan adlewyrchu camau cynnar pwysig mewn perthynas â llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Mae'r colofnau dilynol, Camau ABC, yn disgrifio'r dilyniant posibl i ddysgwyr wrth iddynt atgyfnerthu a chymhwyso eu sgiliau tuag at Gam Cynnydd 1 a thu hwnt.

Llwybrau at ...				Cam Cynnydd 1	Cam Cynnydd 2	Cam Cynnydd 3	Cam Cynnydd 4	Cam Cynnydd 5
Map Llwybrau Ar Drywydd Dysgu	Camau A	Camau B	Camau C					
								

Yn bennaf, defnyddir Camau ABC gan ymarferwyr addysgol i gefnogi proses ddysgu'r rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Camau ABC Diwygiedig

Mae Camau ABC o fewn y Fframweithiau wedi'u diwygio i gyd-fynd â Fframwaith Cwricwlwm i Gymru. Maent yn adeiladu ar ddysgu blaenorol [Map Llwybrau diwygiedig Ar Drywydd Dysgu](#), gyda'r nod o ddangos cynnydd datblygiadol o gerrig milltir olaf Ar Drywydd Dysgu tuag at Gam Cynnydd 1.

Er mwyn adlewyrchu ysbryd Fframwaith Cwricwlwm i Gymru, mae datganiadau Camau ABC bellach yn cael eu mynegi o safbwynt y dysgwr. Byddwch hefyd yn sylwi ar ailadrodd drwyddi draw, sy'n fwriadol i bwysleisio'r angen i ddysgwyr elwa o atgyfnerthu a chyffredinoli eu dysgu ar draws ystod o gyd-destunau.

Wrth ddiwygio Camau ABC, ystyriwyd yn o gystal [canllawiau drafft Agor Llwybrau](#). Bydd ymarferwyr sy'n gweithio gyda dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn elwa ar ddefnyddio canllawiau Agor Llwybrau ochr yn ochr â Chamau ABC.

[Camau ABC diwygiedig: Llythrennedd](#)

[Camau ABC diwygiedig: Rhifedd](#)

[Camau ABC diwygiedig: Cymhwysedd Digidol](#)